Arddangosfa Addysg Uwch
Gogledd Ddwyrain Cymru 2018

# Pecyn gwybodaeth i ymwelwyr

Canolfan Chwaraeon Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Dydd Mercher, 21 Mawrth 2018

10:00 – 13:00



# Cynnwys


A .... 3
Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd .... 3
Cyrraedd .... 3
C .... 3
Bysiau .... 3
Ceir .... 3
Bwyd a diod .... 3
Peiriannau arian parod .... 3
D .... 4
Cyfarwyddiadau .... 4
E .... 4
Trefniadau mewn argyfwng .... 4
Staff y digwyddiad .... 4
F .... 4
Cymorth cyntaf .... 4
I .... 5
Yswiriant .... 5
Rhyngrwyd .... 5
L .... 5
Eiddo coll .... 5
O .... 5
Trefnwyr .... 5
P .... 6
Parcio .... 6
R .... 6
Asesu risg .... 6
S .... 6
Diogelwch .... 6
Ysmygu .... 6

# A

## Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd

Os bydd damwain neu os bu i ddamwain bron â digwydd, dywedwch wrth drefnydd y digwyddiad yn syth, a bydd cymorth yn cael ei ddarparu.

## Cyrraedd

Ar ôl cyrraedd, ewch i mewn i'r Ganolfan Chwaraeon drwy'r brif fynedfa lle bydd y broses cofrestru ymwelwyr yn digwydd.

# C

## Bysiau

Bydd bysiau'n gollwng eu teithwyr yn y gilfan (lay-by) yn union y tu allan i'r Ganolfan Chwaraeon. Oherwydd cyfyngiadau maint, bydd raid i fysiau ddod i mewn i'r campws o giât Plas Coch a gadael naill ai drwy'r un giât neu drwy'r giât ar Crispin Lane. Yn anffodus, ni allwn gynnig mannau parcio i fysiau ar y safle.

## Ceir

Mae parcio di-dâl ar gael ym meysydd parcio'r brifysgol. Ond rydym yn awgrymu eich bod yn cyrraedd yn gynnar i gael man parcio, gan fod bore Mercher yn amser prysur iawn ar gampws Wrecsam.

## Bwyd a diod

Ni allwn ddarparu bwyd a diod i ymwelwyr yn yr arddangosfa ei hun. Ond mae bwyd poeth ac oer a lluniaeth ysgafn ar gael i'w brynu mewn nifer o fannau arlwyo ar y campws, i gyd o fewn 150m i leoliad yr arddangosfa.

## Peiriannau arian parod

Yn anffodus, does dim peiriannau twll yn y wal ar y campws. Ond mae peiriannau ar gael yn Sainsbury's a Boots yn y parc siopa sydd drws nesaf i'r campws, a hefyd yn garej Shell ar Ffordd yr Wyddgrug (gyferbyn â mynedfa flaen y brifysgol).

## D

### Cyfarwyddiadau

**Teithio â char**
Defnyddiwch gyffordd 15 oddi ar yr M56 lle mae'n ymuno â'r M53 i Gaer/Wrecsam. O'r M53, parhewch ar hyd yr A55, a chymryd yr allanfa wedi'i harwyddo A483 Wrecsam. Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam oddi ar gyffordd 5 yr A483 gan ddilyn arwydd Wrecsam/Yr Wyddgrug. Cod post ar gyfer y Satnav: LL11 2AW

**Teithio ar y trên**
Gorsaf Gyffredinol Wrecsam - taith pum munud ar droed o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam.
Gorsaf Ganolog Wrecsam - taith deg munud ar droed o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam.

**Teithio o feysydd awyr**
Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam oddeutu awr i ffwrdd mewn cerbyd o faes awyr Manceinion a maes awyr John Lennon, Lerpwl

## E

### Trefniadau mewn argyfwng

Os bydd argyfwng, bydd system larwm y lleoliad yn cael ei rhoi ar waith a bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud dros y system PA. Dylid gadael y lleoliad drwy un o bum drws argyfwng sydd o gwmpas y neuadd, a dylai ymwelwyr ymgynnull wrth un o'r pwyntiau ymgynnull cyfagos (sy'n cael eu dangos ag arwyddion gwyrdd) nes bydd pobl yn cael gwybod bob popeth yn iawn.

### Staff y digwyddiad

Os bydd gennych gwestiynau cyffredinol i'w gofyn yn ystod y digwyddiad (e.e. sut i gael hyd i'r toiledau), gofynnwch i unrhyw un o staff y digwyddiad a fydd yn gwisgo crysau-t coch UCAS.

## F

### Cymorth cyntaf

Os byddwch chi neu aelod o'ch parti angen cymorth cyntaf, rhowch wybod i drefnydd y digwyddiad, a bydd rhagor o gymorth yn cael ei ddarparu.

## I

### Yswiriant

Mae gan y trefnydd yswiriant atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus digonol. Mae copi o'r dystysgrif yng nghefn y pecyn hwn.

Er bod y trefnydd yn cymryd pob cam posib i ddiogelu eiddo ymwelwyr pan fydd digwyddiad yn cael ei gynnal, nid yw'n gyfrifol am unrhyw golledion na difrod. Dylai arweinwyr y grwpiau wneud yn siŵr bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyflogwyr a chyhoeddus, yn unol â'r telerau ac amodau archebu.

### Rhyngrwyd

Mae cyfleusterau ar gyfer cael mynediad i'r rhyngrwyd ar gael yn y neuadd arddangos

## L

### Eiddo coll

Dylid mynd ag eiddo sydd wedi cael ei adael drwy gamgymeriad gan rywun i dderbynfa'r Ganolfan Chwaraeon a gellir mynd i nôl eiddo y byddwch wedi'i golli o'r fan honno.

Os byddwch yn dod ar draws eitem (bagiau etc.) sy'n edrych yn amheus i chi, peidiwch â'i chyffwrdd a dweud yn syth wrth staff stondin gymorth y digwyddiad.

## O

### Trefnwyr

Dylai trefnydd y digwyddiad (Andy Cairns) fod wrth ymyl stondin gymorth y digwyddiad yn ystod y rhan fwyaf o'r arddangosfa.

## P

### Parcio

Mae parcio di-dâl ar gael i ymwelwyr yn holl feysydd parcio'r brifysgol. Ond rydym yn awgrymu i chi gyrraedd yn gynnar i wneud yn siŵr y byddwch yn cael lle.

Yn anffodus, ni allwn gynnig mannau parcio i fysiau ar y safle.

## R

### Asesu risg

Mae'r trefnydd wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y digwyddiad. Mae copi ohono yng nghefn y pecyn hwn.

## S

### Diogelwch

Mae pob campws yn cael ei ddiogelu â system ddiogelwch 24 awr. Ond rhaid pwysleisio mai'r ymwelwyr sy'n gyfrifol am eu heiddo eu hunain, a pherchnogion sy'n gyfrifol am eu cerbydau pan fyddant yn eu gadael yn y meysydd parcio, ac nid y brifysgol. Ni all y brifysgol dderbyn cyfrifoldeb am golled neu ddifrod i eiddo tra byddwch yn ymweld â'r arddangosfa.

### Ysmygu

Mae holl adeiladau'r brifysgol yn ardaloedd dim ysmygu. Gofynnwn i unrhyw ymwelwyr sydd am ysmygu wneud hynny yn yr awyr agored, o leiaf 5m i ffwrdd o fynedfeydd i unrhyw adeilad.

# Asesiad risg i drefnwyr digwyddiadau UCAS

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad asesu:** 17/07/2018 | **Aseswr:** Andy Cairns | **Dan arolygaeth: Kaylea Blindell** |
| | **Llofnod:** A.Cairns |  |
| **Digwyddiad:** Arddangosfa UCAS Gogledd Ddwyrain Cymru | **Teitl:** Swyddog CRM a Phrofiadau Digwyddiadau | |
| | **Sefydliad:** Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | |

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** Canolfan Chwaraeon Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | **Dyddiadau cynhwysol presenoldeb ar y safle:** 20 – 21 Mawrth 2018 |

| | |
|---|---|
| **Allwedd i'r canlyniad gwaethaf (A):** | **4 = Uchel** – yn sicr o achosi marwolaeth<br>**3 = Canolig** – yn debygol o achosi anaf difrifol<br>**2 = Isel** – yn bosibl iddo achosi anaf cymorth cyntaf<br>**1 = Isel iawn** – yn annhebygol o achosi anaf/difrod |

| | |
|---|---|
| **Allwedd i'r sgôr tebygolrwydd (B):** | **4 = Tebygolrwydd**<br>**3 = Posibilrwydd**<br>**2 = Annhebygol**<br>**1 = Posibilrwydd isel iawn** |

| | |
|---|---|
| **Allwedd i lefel y risg:** | **12 – 16 = risg uchel**<br>**6 – 9 = risg ganolig – uchel**<br>**3 – 4 = risg isel – canolig**<br>**1 – 2 = risg isel** |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw? | Gwerthuso’r risgiau | | | Rheoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a nodir | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel y Risg (AxB) | Mesurau rheoli |
| Gormod o bobl mewn stondin/neuadd y digwyddiad | Y cyhoedd a’r arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **6** | • Mae cynllun y llawr wedi cael ei gynllunio i sicrhau eiliau mor llydan â phosib (o leiaf 2.5 metr o hyd) i osgoi gorlenwi.<br>• Lle addas o gwmpas y stondinau a’r ardaloedd arddangos, a fydd yn cael eu monitro gan reolwyr y llawr a’r trefnwyr.<br>• Arddangoswyr i sicrhau bod staff sy'n gofalu am y stondinau yn cadw o fewn eu stondin rhag achosi tagfeydd yn yr eiliau.<br>• Trefnwyr i atgyfnerthu hyn os bydd unrhyw arddangoswr yn ceisio rhyngweithio y tu allan i ofod y stondin a ddyrannwyd iddo.<br>• Trefnwyr i drefnu amseroedd cyrraedd yn unol â maint y lleoliad, gan fonitro’r bobl sy’n cyrraedd gyda chymorth staff y lleoliad, er mwyn atal gorlenwi. Gellir trefnu amseroedd cyrraedd ar gyfer bysys hefyd os bydd hynny’n briodol.<br>• Trefnwyr i sicrhau digon o staff i ddelio â llif yr ymwelwyr yn y lleoliad. Dylai’r holl staff fod yn hawdd eu hadnabod.<br>• Trefnwyr i fonitro’r ardal arddangos.<br>• Dylai arddangoswyr roi gwybod i’r trefnwyr os bydd eu stondinau neu’r ardal o gwmpas eu stondinau yn gorlenwi.<br>• Pawb i ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan y trefnydd, staff y lleoliad neu is-gontractwyr er mwyn helpu i reoli traffig a llif cerddwyr. |
| Tân | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr a myfyrwyr sy’n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **12** | • Cadw allanfeydd tân yn glir rhag rhwystrau.<br>• Offer diffodd tân i fod ar gael yn y lleoliad.<br>• Sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei gasglu a’i storio’n gywir.<br>• Arddangoswyr i sicrhau bod yr holl wastraff a’r deunydd gwastraff fflamadwy yn cael ei symud o ardal y stondinau.<br>• Bydd arddangoswyr yn defnyddio mannau ysmygu dynodedig. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw? | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a nodir | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel y Risg (AxB) | Mesurau rheoli |
| Gwagio'r adeilad | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr a myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | • Y lleoliad i sicrhau bod y systemau atal, canfod a rhybuddio am dân yn addas ar gyfer y lleoliad ac wedi cael eu harchwilio a'u cynnal fel eu bod yn gweithio'n dda.<br>• Y trefnwyr a'r lleoliad i sicrhau bod digon o allanfeydd o'r lleoliad.<br>• Cyflwyno cynllun llawr ar gyfer y lleoliad i'w gymeradwyo ymlaen llaw.<br>• Hysbysu trefnwyr am y cynllun gadael a'i gyflwyno i fyfyrwyr sy'n cynorthwyo, arddangoswyr a chontractwyr.<br>• Trefnwyr i roi dogfennau perthnasol am y trefniadau gadael i gontractwyr, i arddangoswyr ac i ymwelwyr, gan gynnwys dogfennau perthnasol am y man ymgynnull mewn tân.<br>• Dylai arddangoswyr sicrhau eu bod yn gwybod lle mae'r allanfa dân agosaf, a chadw pob allanfa yn glir bob amser.<br>• Contractwyr, arddangoswyr, ac ymwelwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r trefniadau gadael, eu bod yn darllen yr holl ddogfennau perthnasol a ddarperir, a'u bod yn dilyn yr holl gyfarwyddiadau a roddir petai angen gadael yr adeilad.<br>• Sicrhau bod pob eil ac allanfa frys yn glir.<br>• Sicrhau bod pob allanfa frys yn cael ei chynnal a'i chadw'n glir yn ystod y digwyddiad.<br>• Ni ddylai arddangoswyr rwystro eiliau na mannau cyhoeddus, gan gynnwys yn ystod cyfnodau gosod stondinau a'u tynnu i lawr, a dylent sicrhau bod arddangosiadau'r stondinau yn cadw o fewn y gofod a ddyrannwyd i'r stondin.<br>• Lle bo modd, dylai trefnwyr sicrhau bod y system PA yn gallu cael ei chlywed yn glir yn yr holl fannau cyhoeddus.<br>• Os na fydd hi'n bosib clywed unrhyw gyhoeddiadau gadael dros y sŵn atmosfferig, bydd staff diogelwch yn dod i'r neuaddau i gael pobl allan. |
| Llithro/baglu a chwympo | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr a myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3 | 4<br>3 | **9** | • Dylai arddangoswyr sicrhau bod yr holl focsys wedi'u pentyrru'n briodol o fewn y gofod a ddyrannwyd i'r stondin.<br>• UCAS i anfon e-bost at arddangoswyr yn eu hatgoffa o Delerau ac Amodau'r Arddangoswyr, gan bwysleisio y dylai arddangoswyr gadw eu harddangosiadau o fewn y stondin a ddyrannwyd iddynt.<br>• Cyn i'r digwyddiad agor, dylai'r trefnwyr sicrhau bod stondinau'r holl arddangoswyr yn briodol ac nad ydynt yn achosi perygl baglu. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2 | 2 | | • Dylai'r arddangoswyr ofyn i staff y digwyddiad fynd â bocsys gwag, bocsys sydd wedi'u gwasgu'n fflat a bocsys sydd wedi torri o'u stondinau.<br>• Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau bod bocsys gwag yn cael eu clirio o'r stondin, gyda help y myfyrwyr sy'n cynorthwyo.<br>• Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau nad oes dim ceblau'n llusgo yn ardal y stondin, nac yn y llwybrau cyfagos i gerddwyr.<br>▪ Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau bod eiddo personol yn cael ei roi o'r neilltu'n briodol.<br>▪ Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau bod unrhyw wastraff arall yn cael ei storio a'i symud yn ddiogel.<br>▪ Dylai arddangoswyr sicrhau nad ydynt yn tynnu unrhyw ran o'u stondin i lawr nes bod yr holl ymwelwyr wedi gadael yr ardal arddangos a bod y trefnwyr wedi rhoi caniatâd i'r broses dynnu ddechrau. |
| | | 1 | 1 | | |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw? | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a nodir | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel y Risg (AxB) | Unigolyn/unigolion mewn perygl |
| Gweithio mewn mannau uchel | Arddangoswyr, contractwyr, staff y lleoliad ac UCAS | 4<br>**3**<br>2<br>1 | 4<br>**3**<br>2<br>1 | **9** | • Ni chaniateir i'r adeiladwaith fod yn uwch na 4m.<br>• Rhaid gwneud yr holl waith oddi ar offer cynnal sad – naill ai ysgol neu sgaffald – gydag arwyddion rhybuddio a rhwystrau addas fel bo angen.<br>• Arddangoswyr i sicrhau bod yr holl staff y mae gofyn iddynt weithio mewn mannau uchel wedi cael hyfforddiant addas.<br>• Rhaid iddynt wisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a dillad ac esgidiau addas. |
| Stondinau yn syrthio drosodd | Cyhoedd ac arddangoswyr | 4<br>3<br>**2**<br>1 | 4<br>**3**<br>2<br>1 | **6** | • Yr holl arddangoswyr i sicrhau bod eu stondinau'n sownd ac yn ddiogel, gan roi gwybod i'r trefnydd am unrhyw broblemau.<br>• Rhaid i unrhyw arddangoswyr â stondinau cymhleth gyflwyno eu hasesiad risg eu hunain i dîm Digwyddiadau UCAS.<br>• Bydd y trefnwyr yn gofyn i unrhyw stondin y credir ei bod yn anniogel gael ei thynnu i lawr, neu byddant yn gweithio gyda'r arddangoswyr i ddiogelu'r stondin. |
| Strwythur arbennig ee llwyfannau/pebyll mawr | Arddangoswyr a staff y lleoliad | 4<br>**3**<br>2<br>1 | 4<br>**3**<br>2<br>1 | **9** | • Rhaid i gynlluniau strwythurau arbennig gael eu cyflwyno i'r lleoliad a'u gwirio chwe wythnos cyn y digwyddiad.<br>• Ni chaniateir i'r adeiladwaith fod yn uwch na 4m. |
| Offer codi, (FLTs, craeniau ac ati) offer pŵer, a ffynonellau gwres | Contractwyr | 4<br>**3**<br>2<br>1 | 4<br>**3**<br>2<br>1 | **9** | • Dim ond y contractwr cymwys sydd wedi'i benodi gan y lleoliad neu'r trefnydd sydd i ddefnyddio'r offer codi.<br>• Y contractwyr i ddefnyddio offer pŵer sydd â cheblau llusgo o'r hyd lleiaf ac sy'n cael eu gwarchod rhag difrod yn fecanyddol ac yn weledol. Ni fydd offer o'r fath yn cael ei adael heb oruchwyliaeth pan fydd y cyflenwad trydan ymlaen.<br>• Defnyddir goleuadau rhybuddio ac arwyddion priodol pan fo angen. |
| Cyfleusterau bwyd a diod (symudol a statig) | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr a myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>**2**<br>1 | 4<br>**3**<br>2<br>1 | **6** | • Y lleoliad fydd yn darparu ac yn rheoli'r staff a'r cyfleusterau bwyd a diod i gyd.<br>• Consesiynau cyfarwydd a dibynadwy yn unig.<br>• Rheoliadau hylendid i gael eu dilyn yn fanwl.<br>• Y cwmni arlwyo i gyflogi staff addas sydd wedi cael hyfforddiant. Staff arlwyo i sicrhau eu bod yn glanhau unrhyw beth sy'n cael ei golli ar unwaith. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw? | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a nodir | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel y Risg (AxB) | Unigolyn/unigolion mewn perygl |
| Amrywiaeth o gontractwyr ac arddangoswyr ar y safle | Contractwyr ac arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **6** | • Arddangoswyr i gytuno ar asesiad risg fel rhan o'u harcheb, a rhoi gwybodaeth ychwanegol lle bo'n briodol.<br>• Dim ond contractwyr profiadol, dibynadwy a chymeradwy i gael eu defnyddio.<br>• Trefnwyr i gael eu hysbysu o unrhyw beryglon penodol sy'n codi cyn ac yn ystod yr arddangosfa.<br>• Archwiliadau sylfaenol wedi'u gwneud ar asesiadau risg contractwyr ac arddangoswyr.<br>• Y cwmni cyflogi sy'n benodol gyfrifol am y contractwyr, hy yr arddangoswyr.<br>• Mae arddangoswyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu contractwyr yn defnyddio offer priodol, ac yn gymwys i wneud hynny.<br>• Amcangyfrifir mai dau aelod o staff fydd gan gontractwyr.<br>• Mae'n rhaid i arddangoswyr a chontractwyr sydd am weithio'n hwyr ofyn caniatâd y trefnydd cyn y digwyddiad, er mwyn trefnu diogelwch, cymorth cyntaf, trydan, a goleuadau ar gyfer y neuaddau neu'r stondinau penodol.<br>• Rhaid i bob cwmni contractio fod â swyddog cymorth cyntaf cymwys ymysg ei staff, ar gyfer criw sy'n aros yn hwyr. Rhaid i'r contractwr hefyd roi enw'r sawl sydd mewn gofal ynghyd â rhif cysylltu.<br>• Ni chaniateir balŵns heliwm yn y lleoliad. |
| Trydan – cysylltiadau a phŵer i stondinau ac ati | Arddangoswyr | 4<br>3<br>2 | 4<br>3<br>2 | **9** | • Arddangoswyr i ddefnyddio socedi/cyflenwadau trydan a gyflenwir gan drefnwyr y digwyddiad yn unig, neu'r rheini sydd wedi cael eu cyflenwi gan is-gontractwyr sydd wedi'u penodi gan y trefnydd.<br>• Bydd contractwr penodedig y trefnydd hefyd yn gosod cyflenwadau pŵer ar bob stondin, pan fo angen. Ni chaniateir i arddangoswyr wneud eu gwaith weirio eu hunain, rhag egnioli systemau a allai fod yn is na'r safon ac yn beryglus.<br>• Yr arddangoswyr i sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac at y diben.<br>• Dylai arddangoswyr sicrhau nad oes socedi na chysylltiadau'n cael eu gorlwytho yn ardal eu stondin, ac, os nad ydynt yn sicr, dylent ofyn am gymeradwyaeth gan drefnydd y digwyddiad. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 1 | | • Dylai'r holl gyfarpar cludadwy trydanol sydd wedi'u cludo i'r safle gan arddangoswyr fod â thystysgrif prawf PAT dilys.<br>• Sicrhau bod yr holl risgiau trydanol dan reolaeth, a bod un o aelodau staff y contractwr trydanol ar y safle bob amser.<br>• Dim ond contractwyr profiadol, dibynadwy a chymeradwy i gael eu defnyddio.<br>• Rhaid i bob archeb am drydan gael ei rhoi cyn y dyddiad cau, lle bo'n berthnasol. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw? | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a nodir | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel y Risg (AxB) | Unigolyn/unigolion mewn perygl |
| Gosod stondinau a'u tynnu i lawr | Arddangoswyr, contractwyr, staff y lleoliad ac UCAS | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | • Cyfnod gosod o ddwy awr o leiaf i arddangoswyr, a mynediad diwrnod llawn i gontractwyr.<br>• Dim ond unigolion awdurdodedig fydd yn cael bod yn y lleoliad yn ystod cyfnodau gosod stondinau a'u tynnu i lawr. Ni chaniateir plant dan 18 ar y safle yn ystod y cyfnodau gosod stondinau a'u tynnu i lawr.<br>• Ni chaniateir cerbydau yn yr ardal arddangos pan fydd ar agor. Gellir caniatáu cerbydau ar y safle wrth godi'r stondinau ac wrth eu tynnu i lawr gyda chaniatâd y trefnydd.<br>• Pawb i fod yn ymwybodol o beryglon posibl pan fo contractwyr yn symud o amgylch y safle, gan gynnwys defnyddio wagenni fforch-godi a cherbydau cyflenwi.<br>• Rhaid i arddangoswyr wisgo bandiau ar eu harddwrn er mwyn iddynt gael mynd i mewn cyn i'r digwyddiad agor i'r cyhoedd. Rhaid monitro'r holl gontractwyr ar y safle, o ran y tasgau a wneir, a rhaid gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol addas pan fo angen.<br>• Trefnwyr i reoli mynediad i ardaloedd lle mae gwaith adeiladu a chodi mawr yn mynd rhagddo.<br>• Staff diogelwch i wisgo Cyfarpar Diogelu Personol dim ond os yw'r trefnydd yn mynnu, a chynorthwyo'r rheolwyr llawr â'r polisi ynglŷn â Chyfarpar Diogelu Personol os oes angen. |
| Parcio ceir yn ystod yr arddangosfa | Ymwelwyr ac arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **4** | • Dylid cyflwyno trefniadau parcio i arddangoswyr ac ymwelwyr a gwybodaeth am y man llwytho ymlaen llaw.<br>• Defnyddio stiwardiaid traffig i reoli llif y traffig ar y safle.<br>• Rhaid cyflwyno manylion cyswllt y lleoliad ymlaen llaw, ynghyd â thocynnau parcio, os yw hynny'n berthnasol.<br>• Gosod stiwardiaid traffig yn y maes parcio/mannau dadlwytho.<br>• Rhaid cymryd gofal wrth yrru i'r lleoliad ac oddi yno.<br>• Glynu wrth y cyfyngiadau cyflymder ac arferion da wrth yrru: 'dim ffonau symudol wrth yrru', a 'diffodd cyn cychwyn'. |
| Codi a chario | Arddangoswyr a myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | • Arddangoswyr i sicrhau bod yr holl staff ar eu stondinau wedi cael hyfforddiant ar sut mae codi a chario'n gywir.<br>• Dogfen codi a chario i gael ei chynnwys yn y pecynnau i arddangoswyr a myfyrwyr sy'n cynorthwyo.<br>• Pawb i wisgo esgidiau addas.<br>• Glanhawyr i gadw golwg am hylif sydd wedi colli a'i lanhau. Gosod arwyddion perygl ar unrhyw loriau gwlyb ar unwaith. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw? | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a nodir | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel y Risg (AxB) | Unigolyn/unigolion mewn perygl |
| Cyfeirio ymwelwyr | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr a myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | 9 | • Ymwelwyr i ddod i mewn i'r lleoliad drwy'r brif fynedfa ym mlaen y lleoliad yn ystod y digwyddiad.<br>• Bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi yng nghanllaw yr arddangosfa – gan gynnwys gwybodaeth am gymorth cyntaf, bwyd a diod ac ati.<br>• Defnyddiwch y cynllun llawr i dynnu sylw ar y prif feysydd diddordeb er mwyn helpu pobl i fynd o gwmpas y lleoliad, megis lleoliadau stondinau arddangoswyr, mynedfeydd ac allanfeydd, man cymorth cyntaf, swyddfa'r trefnydd, ystafelloedd seminar, ac ardaloedd bwyd a diod.<br>• Caiff pob stondin ei chynghori i ddarparu mynediad i bobl anabl yn y llawlyfr i arddangoswyr ac yn ystod yr archwiliad stondin.<br>• Trefnwyr a stiwardiaid i fonitro gwesteion anabl i wneud yn siŵr eu bod yn gallu symud yn rhwydd o amgylch y lleoliad.<br>• Trefnwyr i sicrhau bod mynedfeydd/allanfeydd i'r anabl yn y lleoliad.<br>• Rhaid cadw'n llym at gyfyngiadau uchder fel bod modd gweld arwyddion a baneri'n glir.<br>• Trefnwyr i sicrhau bod staff priodol yn eu lle i ddarparu a rheoli amgylchedd diogel i arddangoswyr, staff ac ymwelwyr.<br>• Ni chaniateir defnyddio trolïau ar lawr y neuadd arddangos i symud deunyddiau pan fydd yr arddangosfa ar agor.<br>• Stiwardiaid diogelwch i fod ar waith i fonitro llif traffig a cherddwyr yn y lleoliad. |
| Ardal seminarau | Ymwelwyr a siaradwyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | 1 | • Ni chaniateir pellter o fwy na 12 metr at unrhyw allanfa frys yn yr ardal seminarau.<br>• Pob allanfa frys i fod ag arwydd allanfa frys wedi'i oleuo uwchben y drws.<br>• Rhaid rhwymo pob cebl yn ddiogel rhag i bobl faglu.<br>• Rhaid i stondinau uchelseinyddion beidio ag ymwthio i'r eiliau.<br>• Rhaid cadw'r sŵn i lefel resymol.<br>• Rhaid clipio rhesi seddi wrth ei gilydd, neu ddefnyddio meinciau.<br>• Mae canllaw seddi wedi cael ei greu ar gyfer y seminarau er mwyn helpu'r trefnwyr a'r staff technegol i drefnu cynllun diogel ar gyfer yr ystafell, gan gynnwys lled diogel ar gyfer eiliau, ac ati. |
| Clustffonau Di-wifr | Ymwelwyr, staff y trefnydd, | 4<br>3 | 4<br>3 | 4 | • Bydd ymwelwyr yn cael eu briffio ar ddefnyddio clustffonau "seminar distaw" ac ar sut mae rheoli'r sain |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | llysgenhadon y digwyddiad | 2<br>1 | 2<br>1 | | • Rhaid profi a gwefru clustffonau cyn pob tymor digwyddiadau a'u monitro drwy gydol y cyfnod. |
| Rheoli alcohol / sylweddau | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **1** | ▪ Ni chaniateir alcohol/sylweddau yn y lleoliad. Bydd lleoliadau sydd â chyfleusterau bar yn cael gwybod am hyn cyn y digwyddiad.<br>▪ Y lleoliad fydd yn gyfrifol am archwiliadau perthnasol, os oes angen.<br>▪ Os gwelir bod gan rywun gyffuriau a reolir (Dosbarth A, B neu C) yn ei feddiant, neu os gwelir bod rhywun dan ddylanwad cyffuriau o'r fath, caiff yr heddlu eu hysbysu.<br>▪ Gofynnir i unrhyw droseddwyr adael y digwyddiad. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw? | Gwerthuso’r risgiau | | | Rheoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a nodir | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel y Risg (AxB) | Unigolyn/unigolion mewn perygl |
| Peryglon ac anafiadau yn sgil ymddygiad negyddol neu gadarnhaol pan fydd staff yn torri'r rheolau, a gofynion asesiadau risg ar gyfer y peryglon a’r risgiau uchod.<br><br>Dyma’r prif rai:<br><br>a) Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)<br>b) codi a chario<br>c) offer gwaith a thrydan<br>d) cemegion<br>e) llithro, baglu a chwympo<br>f) gweithio mewn mannau uchel<br>g) trefniadau mewn argyfwng | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy’n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | Mae rheolau, gweithdrefnau a pholisïau'r cwmni yn berthnasol bob amser.<br><br>**a)** Hyfforddiant ar bob math o Gyfarpar Diogelu Personol, ac ar ofal croen:<br>Rhoi gwybod i’r staff am ofynion asesiadau risg.<br>Cyfarpar Diogelu Personol fel y nodir yn yr asesiad risg.<br>**b)** Yr hyfforddiant codi a chario a ddarperir:<br>Hyfforddiant ar offer codi a chario mecanyddol.<br>Rhoi gwybod i’r staff am ofynion asesiadau risg.<br>Goruchwyliaeth a chymhwysedd staff.<br>Rhoi gwybod i’r staff am ofynion asesiadau risg.<br>Goruchwyliaeth a chymhwysedd staff.<br>**c)** Offer gwaith a thrydan:<br>Hyfforddiant ar offer gwaith i’r staff.<br>Archwiliadau cyn shifftiau ac archwiliadau statudol yn eu lle a’u bod wedi cael eu gwirio ar gyfer eu gweithredu.<br>**d)** Cemegion:<br>Wedi rhoi gwybod i'r staff am ofynion asesiadau risg COSHH.<br>MSDS a chanllawiau ar gyfer cynnyrch ar gael.<br>Goruchwyliaeth a chymhwysedd staff.<br>System storio, casglu, a gwaredu gwastraff yn ei lle.<br>**e)** Llithro, baglu a chwympo: rhoi gwybod i’r staff am ofynion asesiadau risg:<br>Rheoli ceblau a pheryglon baglu.<br>Goruchwyliaeth a chymhwysedd staff.<br>**f)** Gweithio mewn mannau uchel: hyfforddiant a chymhwysedd.<br>**g)** Trefniadau mewn argyfwng:<br>Hyfforddi staff ar iechyd a diogelwch a threfniadau mewn argyfwng.<br>Rhybuddion a larymau gweledol a chlywedol sy’n addas ar gyfer peryglon ac sy’n cael eu profi’n rheolaidd. |
| Salwch neu anaf | | 4 | 4 | **9** | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr a myfyrwyr sy’n cynorthwyo | 3<br>2<br>1 | 3<br>2<br>1 | | • Dylid cysylltu ag aelod o staff lleoliad y digwyddiad os bydd angen cymorth cyntaf. Dylid gwneud yn siŵr bod aelod o staff y digwyddiad a/neu staff diogelwch yn y lleoliad bob amser.<br>• Sicrhau bod arddangoswyr a myfyrwyr sy’n cynorthwyo yn gwybod lle mae’r man cymorth cyntaf, a’i fod yn cael ei ddangos ar gynllun y llawr yng Nghanllaw yr Arddangosfa.<br>• Trefnwyr i sicrhau bod staff cymwys yn rhoi cymorth cyntaf, a bod trefnwyr UCAS yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf.<br>• Os bydd un o staff cymorth cyntaf UCAS yn gysylltiedig neu wedi helpu mewn damwain/digwyddiad, mae’n rhaid cofnodi hynny yn llyfr cymorth cyntaf y trefnydd, a rhoi copi i UCAS.<br>• Rhaid monitro tymheredd yr ystafell drwy gydol y digwyddiad i gynnal lefelau priodol. |
| Sefyllfa frys | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr a myfyrwyr sy’n cynorthwyo (tua 3000+) | 1<br>2<br>3<br>4 | 1<br>2<br>3<br>4 | **16** | • Trefnydd y digwyddiad i roi gwybod am fanylion llawn y digwyddiad i staff y lleoliad cyn y digwyddiad fel eu bod yn ymwybodol o'r trefniadau mewn argyfwng, ac unrhyw fesurau diogelwch sydd wedi’u rhoi yn eu lle ar gyfer y digwyddiad.<br>• Trefnydd y digwyddiad i drafod y manylion â’r tîm ar y safle a rhoi gwybod iddynt os bydd unrhyw beth yn newid.<br>• Dylai trefnydd y digwyddiad ddilyn trefniadau mewn argyfwng y lleoliad bob amser a gweithredu i sicrhau diogelwch yr holl ymwelwyr ac arddangoswyr, gan gynnwys cloi’r adeilad i lawr neu ei wagio os bydd angen.<br>• Trefnydd y digwyddiad i gofnodi'r holl fanylion ar gofrestr digwyddiadau pan fo hynny'n bosibl.<br>• Rhoi copi o drefniadau gadael/argyfwng y lleoliad i staff, i fyfyrwyr sy’n cynorthwyo ac i arddangoswyr.<br>• Trefnwyr digwyddiadau UCAS i roi gwybod i dîm rheoli digwyddiadau UCAS.<br>• Dylai staff, myfyrwyr sy’n cynorthwyo, arddangoswyr ac ymwelwyr fod yn wyliadwrus bob amser, a rhoi gwybod i swyddfa'r trefnwyr neu staff diogelwch y lleoliad am unrhyw beth amheus. |

# CERTIFICATE OF EMPLOYERS' LIABILITY INSURANCE (a)

*(Where required by regulation 5 of the Employers' Liability (Compulsory Insurance) Regulations 1998 (the Regulations), one or more copies of this certificate must be displayed at each place of business at which the policy holder employs persons covered by the policy)*

1. Name of policy holder
   Glyndŵr University

Policy No Y016458QBE0117A / 175

2. Date of commencement of insurance policy: 1st August 2017

3. Date of expiry of insurance policy: 31st July 2018

We hereby certify that subject to paragraph 2:

1. the policy to which this certificate relates satisfies the requirements of the relevant law applicable in Great Britain, Northern Ireland, Isle of Man, Island of Jersey, Island of Guernsey, Island of Alderney; or any offshore installations in territorial waters around Great Britain and its Continental Shelf **(b)**: and;

2. (a) the minimum amount of cover provided by this policy is no less than £5 million **(c)**; or

   ~~(b) the cover provided under this policy relates to claims in excess of [£ ] but not exceeding [£ ].~~

3. the policy covers the holding company and all its subsidiaries

Signed on behalf of QBE Insurance (Europe) Limited (Authorised Insurer)

## Notes

**(a)** *Where the employer is a company to which regulation 3(2) of the Regulations applies, the certificate shall state in a prominent place, either that the policy covers the holding company and all its subsidiaries, or that the policy covers the holding company and all its subsidiaries except any specifically excluded by name, or that the policy covers the holding company and only the named subsidiaries.*

**(b)** *Specify applicable law as provided for in regulation 4(6) of the Regulations.*

**(c)** *See regulation 3(1) of the Regulations and delete whichever of paragraphs 2(a) or 2(b) does not apply. Where 2(b) is applicable, specify the amount of cover provided by the relevant policy.*

**Important**

Display will be satisfied if the certificate is made available in electronic form and each relevant employee to whom it relates has reasonable access to it in that form.

**QBE Insurance (Europe) Limited**, Plantation Place, 30 Fenchurch Street, London, EC3M 3BD - Registered in England No. 1761561
Authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority– Registration Number 202842